Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol

2023/24

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill neu yn eich iaith eich hun.

Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NG
E-bost: 💻 busnescorfforaethol@siryfflint.gov.uk

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol 2023/2024

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad 5
2. Cynnydd 6
3. Bodloni ein hamcanion cydraddoldeb 7
4. Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu (yn cynnwys gwybodaeth am y gweithlu) 17
5. Cyflog Cyfartal 20
6. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb 21
7. Hyfforddiant 21
8. Caffael 22
9. Casgliad 23

Atodiadau

1. Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
2. Proffil y gweithlu
3. Proffil defnyddwyr gwasanaethau - Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
4. Proffil

Crynodeb Gweithredol

Croeso i'r pedwerydd adroddiad blynyddol - a'r olaf - ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint 2020-2024, sy'n nodi'r cynnydd a wnaethom i gyflawni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2023/24. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw lleihau anghydraddoldebau i bobl â nodweddion gwarchodedig.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom gynnal ein statws fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, cynllun a ddyluniwyd i annog cyflogwyr i recriwtio a chadw pobl anabl a'r rhai hynny â chyflyrau iechyd.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb hefyd wedi'i adlewyrchu yn ein hysgolion. Roeddem yn wrth ein boddau ar ôl i ddisgyblion o'n hysgolion benderfynu gweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid i drefnu eu digwyddiad Balchder eu hunain i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu unigolion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) ac i ddathlu bod yn wahanol.

Fe wnaethom barhau i weithio gyda Phrifysgol Manceinion a threialu adnodd newydd ar gyfer asesiadau o effaith. Bydd rhoi dull newydd ar waith wrth gynnal asesiadau o effaith yn flaenoriaeth ar gyfer 2024/25.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028, sy'n cynnwys camau o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+. Byddwn hefyd yn gweithio tuag at gyflawni'r Nod Ymddiriedaeth ar gyfer Siarter Trosedd Casineb Cymorth i Ddioddefwyr.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Y Cynghorydd Linda Thomas
Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol

Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023/2024

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 y Cyngor yn trafod y cyfnod o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024. Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd i fodloni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn rhoi crynodeb o gyflawniadau yn ystod y cyfnod hwn.

1.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd sector cyhoeddus i

a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;

b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a

c) meithrin perthnasau da rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt.

1.3 Y nodweddion gwarchodedig fel y maent yn cael eu diffinio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

Oedran	Anabledd
Ailbennu Rhywedd	Priodas a Phartneriaeth Sifil
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Hil
Crefydd a Chred	Rhyw
Cyfeiriadedd Rhywiol	

Caiff ein hymrwymiad tuag at y Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb eu hamlinellu yn yr Hysbysiad Cydymffurfio - Y Gymraeg. Fe ymdrinnir â'r camau gweithredu yr ydym wedi eu cymryd i fodloni ein cyfrifoldebau statudol tuag ar y Gymraeg mewn adroddiad ar wahân.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus:-

- gyhoeddi amcanion i ymdrin â gwahaniaethau mewn tâl;
- cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r camau y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i fodloni'r amcanion a faint o amser mae'n disgwyl ei gymryd i fodloni pob amcan;
- llunio adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a thâl;
- ymgysylltu â phobl o grwpiau gwarchodedig;
- asesu effaith polisïau newydd a diwygiedig ar bobl o grwpiau gwarchodedig; a

- chyhoeddi a defnyddio gwybodaeth ar gydraddoldeb.

Pwrpas yr amcanion cydraddoldeb yw lleihau meysydd penodol o anghydraddoldeb a nodwyd gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru er mwyn nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol.

1.4 Yn ogystal â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol caiff ein gwaith ar gydraddoldeb ei gefnogi gan bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb, a Chanllaw Iaith Eglur a chaiff ei ddarparu fel rhan o ddogfennau Cyngor amrywiol megis Cynllun y Cyngor a'r Strategaeth Cwsmeriaid.

2. Cynnydd

2.1 Cyhoeddwyd ein hamcanion cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol2020-24 ym mis Mawrth 2020. Mae'r cynllun gweithredu i fodloni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gael yn Atodiad 1; mae hwn hefyd yn amlygu'r cynnydd a wnaed i fodloni bob cam.

2.2 Mae'r tabl canlynol yn amlinellu ein perfformiad tuag at gyflawni'r camau gweithredu a osodwyd gennym ni ein hunain. Ar gyfer pob amcan, rydym wedi asesu ein hunain gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

C	**Cynnydd Cyfyngedig -** oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn
O	**Cynnydd Boddhaol** - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn ar y cyfan
G	**Cynnydd Da** - gweithgareddau'n cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd iawn

Amcan Cydraddoldeb	Cynnydd
Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.	G
Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles	G
Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw	G
Gwella diogelwch personol ar gyfer pob grŵp gwarchodedig	G
Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig	G
Gwella safonau byw pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig	G

Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi	G

3. Bodloni ein Hamcanion Cydraddoldeb 2023/24

3.1 Mae'r adran hon yn nodi ein prif gyflawniadau i fodloni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2023/24.

Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.

Yn ystod 2023/24:

- Cynigiwyd cyrsiau Rheoli Gorbryder i weithwyr i'w cefnogi i reoli eu hiechyd meddwl.
- Roedd cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gael i weithiwyr, a oedd wedi'i anelu at hyrwyddo dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl a darparu'r sgiliau i allu ymateb yn briodol i eraill sydd efallai angen cefnogaeth.
- Cynigiwyd sesiynau cymorth ar-lein o'r enw "Amser i Mi" i ofalwyr drwy Gofalwyr Cymru.
- Fe wnaethom gymryd rhan yn y Diwrnod Amser i Siarad gan annog gweithwyr i siarad am eu hiechyd meddwl.
- Cynigiwyd cwrs Sylwi, Herio a Newid eich Meddyliau Negyddol i weithwyr. Roedd y cwrs hwn yn edrych ar sut mae meddyliau yn effeithio ar straen a gorbryder ac yn archwilio ffyrdd o feddwl annefnyddiol a all greu arferion a'r meddyliau negyddol a all effeithio ar fywydau bob dydd.
- Darparwyd cyrsiau Rheoli Straen yn y Gwaith i weithwyr, yn ogystal â gweithdai Lles, Gwytnwch ac Ymwybyddiaeth Ofalgar. Roedd y gweithdai hyn yn cynnig cyfle i ddysgu am, a chael profiad o sgiliau ymwybyddiaeth ofalgar, i helpu gweithwyr i sylwi ar, a dod yn fwy hunanymwybodol o batrymau meddwl diwerth, gan ddatblygu'r gallu i hunanreoleiddio ymateb i straen.
- Yn ystod cyfnod y Nadolig, roedd gwybodaeth am y gefnogaeth ar gael i weithwyr a oedd yn teimlo fel nad oeddent yn gallu ymdopi neu'n unig yn cael ei hyrwyddo i'r gweithlu.
- Ochr yn ochr â'r Ganolfan Byd Gwaith fe wnaethom drefnu digwyddiad Iechyd a Lles llwyddiannus a oedd yn dod â darparwyr gofal iechyd o ystod eang o ddarparwyr gwasanaeth ynghyd i gefnogi unigolion yn Sir y Fflint sy'n byw gyda chyflwr iechyd, neu sy'n gofalu am rywun gyda chyflwr iechyd. Rhoddodd gyfle i bobl leol gyfarfod y gwasanaethau hyn wyneb yn wyneb a chael cyngor ar yr hyn sydd ar gael i gynorthwyo â chyflwr iechyd presennol.
- Mae Tîm o Gefnogwyr Iechyd Meddwl bellach wedi ei sefydlu o fewn y Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant. Mae rôl y Cefnogwyr yn cynnwys bod yn unigolion y gellir troi atynt ac sy'n gallu gwrando ar bryderon gweithwyr a'u cyfeirio at gefnogaeth effeithiol.

Gwneud gwahaniaeth

Cyflwyno eich cefnogwyr iechyd meddwl
Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn y Gwasanaethau Stryd yn ddynion ac mae mentrau wedi cael eu cyflwyno i gefnogi eu hiechyd meddwl. Yn ôl Mental Health UK nid yw canlyniadau iechyd meddwl ar gyfer dynion a merched yn gyfartal - mae 75% o'r unigolion sy'n marw drwy hunanladdiad yn ddynion.

Mae gweithwyr wedi gwirfoddoli i fod yn Gefnogwr Iechyd Meddwl yn ein Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant. Maent yn cyfarfod bob chwarter ac yn cynnwys 'Word on the Streetscene' fel eitem sefydlog ar y rhaglen gan ganiatáu i unrhyw dueddiadau newydd gael eu trafod yn ystod y cyfarfod. Cafodd y Cefnogwyr Iechyd Meddwl hyfforddiant ar Drawma Ar Ran Rhywun Arall i ddarparu cefnogaeth a gwytnwch i'n gweithwyr rheng flaen sy'n ymateb i argyfyngau a digwyddiadau critigol.

Mae'r Cefnogwyr wedi datblygu calendr i hyrwyddo mentrau iechyd meddwl, mae hyn yn cynnwys darparu "Dydd Llun y Felan", sy'n gyfle i weithwyr y Gwasanaethau Stryd gyfarfod a chael sgwrs dros baned a brechdanau cig moch.

Mae canlyniadau'r mentrau i hyrwyddo iechyd meddwl o fewn Gwasanaethau Stryd yn cynnwys:

- Gweithwyr yn teimlo fod rhywun yn gwrando arnynt.
- Ymateb rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol.
- Gwella gwelededd iechyd meddwl

Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles

Yn ystod 2023/24:

- Cymerodd dair ysgol arall ran ym mhrosiect "Arweinwyr Nawr" Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Nodau'r rhaglen yw:
    - Grymuso pobl ifanc i fod yn wrth-hiliol yn eu cymunedau eu hunain.
    - Creu rhwydwaith hunangynhaliol o weithredwyr gwrth-hiliaeth.
    - Galluogi sgyrsiau tymor hwy parhaus am hiliaeth a gwrth-hiliaeth.
    - Galluogi i bobl ifanc deimlo'n hyderus wrth herio hiliaeth yn eu gofodau eu hunain.
    - Casglu gwybodaeth am yr hyn y mae pobl ifanc ei eisiau/ei angen gennym ni, dan arweiniad disgyblion.
    - Rhoi llais i ddisgyblion sy'n cael ei glywed gan uwch arweinwyr ysgol.

- Parhaodd y clwb ieuenctid Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Pride Inspire, ac mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal erbyn hyn.
- Mae teuluoedd o Ffoaduriaid sy'n symud i Sir y Fflint wedi cael cynnig cymorth cynhwysfawr. Mae hyn wedi cynnwys cymorth i gael mynediad at addysg ac i ymgysylltu a hi ynghyd â gwasanaethau gofal estynedig i gefnogi'r teulu cyfan i integreiddio'n llwyddiannus â'r gymuned ehangach.
- Mae gweithgor llwybr cyn-ysgol wedi'i sefydlu i greu llwybrau di-dor drwy ofal plant i addysg, ac i sicrhau bod plant ag anghenion yn cael eu cefnogi ar y daith hon.

Gwneud gwahaniaeth

Dathlu Bod Yn Fi Fy Hun!!
Gweithiodd ddisgyblion ysgol gyda'n Gwasanaeth Ieuenctid i drefnu digwyddiad Pride "Dathlu Bod Yn Fi Fy Hun" ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd yn y sir. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys gweithdai ar drosedd casineb, gwytnwch digidol, hunan-barch a delwedd gorfforol. Cynhaliwyd y digwyddiad "Dathlu Bod Yn Fi Fy Hun" fel rhan o fis Pride (Mehefin. Roedd oddeutu 250 o ddisgyblion o ysgolion uwchradd ar draws y sir yn bresennol, gyda chefnogaeth 25 o wahanol elusennau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gymuned LHDTC+.

Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw

Yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Rydym wedi dechrau adolygu ein model cyflog i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn deg.
- Rydym wedi cynnal statws cyflogaeth Hyderus o ran Anabledd. Cynllun gan Lywodraeth y DU yw hwn i gyflogwyr gymryd camau i wella sut y maent yn recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl.
- Rydym wedi parhau i weithio gyda Hft i gefnogi pobl ag anableddau dysgu neu awtistiaeth i ddod o hyd i waith cyflogedig. Caiff Hft eu contractio gan y Cyngor i ddarparu a datblygu cyfleoedd Dydd a Gwaith ar draws y sir i oedolion ag anabledd dysgu.
- Cwblhaodd 10 o bobl o Wcráin y cwrs Llechen Lân yn ystod 2023/24. Mae Llechen Lân yn cefnogi pobl i ddod o hyd i waith yn y diwydiant adeiladu.
- Rydym wedi parhau i gynnig patrymau gweithio hyblyg i gefnogi ein gweithwyr i gynnal cydbwysedd bywyd a gwaith.

Gwneud gwahaniaeth

Cefnogi pobl anabl i gael gwaith

Rydym wedi ffurfio partneriaeth gyda HfT a Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy i gefnogi unigolion â phroblemau iechyd meddwl, niwroamrywiaeth ac anableddau dysgu, i sicrhau cyflogaeth â thâl yn eu cymuned leol.

Ym mis Chwefror 2024, cynhaliwyd ffair swyddi o chwith yng Ngholeg Cambria, gyda chymorth Next Steps a HfT. Daeth dros 50 o unigolion a sefydliadau i'r digwyddiad. Yn dilyn ymlaen o'r digwyddiad, cysylltwyd ag un unigolyn ynghylch cyflogaeth â thâl, ac mae unigolyn arall yn sefydlu ei fusnes ei hun gyda chymorth Syniadau Mawr Cymru.

Mae'r 'EmployAbility Hub' hefyd wedi'i lansio ar wefan Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy, sy'n rhestru'r holl unigolion a gynorthwyir sy'n chwilio am waith cyflogedig.

Mae Next Steps yn darparu cymorth a chanllawiau i bobl ymgymryd ag addysg, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol a chyflogaeth.

Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig

Yn ystod 2023/24:

- Fel rhan o'n hymrwymiad i Siarter Trosedd Casineb Cymorth i Ddioddefwyr, cynigodd Cymorth i Ddioddefwyr hyfforddiant ymwybyddiaeth o drosedd casineb wyneb yn wyneb ac ar-lein gan alluogi mwy o weithwyr i adnabod trosedd casineb, deall effaith trosedd casineb a gwybod sut i adrodd amdano. Roedd y cyrsiau'n cynnwys:
    - Troseddau Casineb Ar-lein
    - Hawliau Ymfudwyr
    - Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
- Darparodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol gwrs "Troseddau Casineb a Bregusrwydd yng Ngogledd Cymru" a oedd yn edrych ar sut y gallai gweithwyr gefnogi pobl a oedd wedi bod yn ddioddefwyr troseddau casineb.
- Adroddwyd am 193 achos o ddigwyddiadau casineb yn Sir y Fflint yn ystod 2023/24.

Math o ddigwyddiad	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Wedi'i ysgogi gan hil	99	92	126	151	111
Homoffobig	40	39	61	58	35
Yn ymwneud ag anabledd	20	38	65	39	22
Trawsffobig	4	7	7	10	11
Crefyddol	5	7	6	13	14
Cyfanswm	168	183	265	271	193

Roedd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau o drosedd casineb yn ystod 2023/24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.Mae Heddlu Gogledd Cymru yn adrodd bod y ffigyrau ar gyfer Sir y Fflint yn cyd-fynd â'r darlun rhanbarthol a chenedlaethol.

- Gweithiodd aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru gyda'i gilydd i annog pobl i adrodd am achosion o droseddau casineb yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill i annog pobl i adrodd am drosedd casineb.
- Cwblhaodd 1,067 o weithwyr y modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
- Parhaodd Cymorth i Ddioddefwyr i ddarparu hyfforddiant ar Drosedd Casineb, ac fe fynychodd ein gweithwyr.
- Fe wnaethom chwifio'r faner Traws ar 20 Tachwedd i nodi'r Diwrnod Cofio Trawsryweddol er cof am unigolion trawsryweddol sydd wedi marw yn dilyn trais trawsffobia.
- Fe wnaethom chwifio'r faner Enfys yn ystod mis hanes LHDT i amlygu ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'r faner Enfys yn symbol a gydnabyddir fel dathliad o'r gymuned LHDTC+.
- Fe wnaethom gefnogi Ymgyrch y Rhuban Gwyn i roi diwedd ar drais yn erbyn merched.
- Mae 1,013 o weithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern.

Gwneud gwahaniaeth

Siarter Trosedd Casineb Cymorth i Ddioddefwyr
Fe wnaethom gofrestru â Siarter Trosedd Casineb Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod 2022/23 ac rydym wedi bod yn gweithio tuag at gael Nod Ymddiriedaeth am ddangos ein bod yn cyflawni'r addewidion yn y Siarter.

Mae'r Siarter yn nodi hawliau dioddefwyr ac ymrwymiadau sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â throsedd casineb, darparu cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr, a chodi ymwybyddiaeth gweithwyr o drosedd casineb.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i godi ymwybyddiaeth o drosedd casineb a chefnogi gweithwyr i adnabod trosedd casineb a gweithredu i gefnogi dioddefwyr.

Mae ein camau nesaf yn cynnwys adolygu polisïau perthnasol i sicrhau eu bod yn cyfeirio'n benodol at drosedd casineb a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr, er mwyn i ni allu cael y Nod Ymddiriedaeth.

Amcan 5: Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig

Yn ystod 2023/24:

- Fe wnaethom lansio gwasanaeth arloesol i drigolion y sir, lle mae gwirfoddolwyr o’r sefydliad, y Sgwad Cymorth Digidol, yn darparu cefnogaeth wyneb yn wyneb a rhad ac am ddim i helpu pobl i fagu hyder i ddefnyddio technoleg ddigidol.
- Mae’r Gwasanaeth Ailgylchu wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau ailgylchu ac amgylcheddol defnyddiol mewn sawl iaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth hanfodol ar gael ac yn hygyrch i drigolion sydd ddim yn siarad Cymraeg neu Saesneg. Fel rhan o adolygiad y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff 2024, rydym wedi ymrwymo i barhau â’r ymarfer hwn.
- Adolygodd Vision Support wefan y Cyngor i sicrhau hygyrchedd i bobl â nam ar eu golwg.
- Fe wnaeth Tîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru ariannu, hwyluso a chyd-gynhyrchu naw prosiect creadigol ar gyfer N.E.W. Futures. Mae hon yn fenter i glywed barn cymunedau amrywiol yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Roedd y prosiectau’n cynnwys cefnogi hunan-eiriolaeth drwy ddatblygu ffilm fer am y gwahaniaethu a brofir gan bobl ag anabledd dysgu.

Gwneud gwahaniaeth

Balchder Sir y Fflint
Cynhaliwyd Balchder Sir y Fflint ym mis Mehefin 2023. Mae’r digwyddiad hwn yn dathlu cyflawniadau ein plant sy’n derbyn gofal, gan gynnwys seremoni wobrwyo a gynhelir gan y bobl ifanc eu hunain, ac amrywiaeth o weithgareddau hwyliog i blant o bob oed.

Mae’r digwyddiad yn cael ei drefnu a’i gynnal gan grŵp cyfranogiad Grŵp Lleisiau Ifanc Sir y Fflint. Mae’r grŵp yn cynnig cyfle i blant sy’n derbyn gofal yn Sir y Fflint leisio’u barn, cyfrannu at ddatblygiadau’r gwasanaeth, rhoi eu hadborth ar bolisïau a gweithdrefnau o fewn yr awdurdod lleol a mynychu’r Fforwm Gwasanaethau Plant.
Mae’r grŵp yn croesawu siaradwyr gwadd gan gynnwys yr Heddlu, Nyrsys Plant sy’n Derbyn Gofal a Thai.

Amcan 6: Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

Yn ystod 2023/24:

- Cafodd ymgyrchoedd i hyrwyddo cefnogaeth gyda chynnal tenantiaethau tai, rheoli arian, cadw cartrefi'n ddiogel a chael mynediad at fudd-daliadau eu hyrwyddo i'r gweithlu a'r cyhoedd. Roedd yr ymgyrchoedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am hunan-atgyfeirio at y Tîm Grant Cymorth Tai.
- Fe wnaethom lwyddo i ddwyn erlyniad yn erbyn landlord am beidio â bodloni amodau trwydded Tai Amlfeddiannaeth, a oedd yn rhoi'r preswylwyr, yn cynnwys teuluoedd a phlant ifanc mewn perygl. Roedd y preswylwyr wedi cwyno i'r Cyngor am yr amodau, fe wnaethom ymchwilio a chymryd camau yn erbyn y landlord.
- Gwnaed 1050 o addasiadau i gefnogi pobl anabl i barhau i fyw yn eu cartref.
- Cafodd 327 o aelwydydd welliannau effeithlonrwydd ynni.
- Rydym wedi parhau i gefnogi Ffoaduriaid o Syria ac Affganistan a phobl o'r Wcráin.

Gwneud gwahaniaeth

Llety Brys Tymor Byr i Bobl Ifanc ag Anableddau Dysgu
Bellach mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol bedwar eiddo ar gael i gefnogi pobl sy'n cael eu hunain yn ddigartref, neu sydd angen llety ar frys. Yr ychwanegiad diweddaraf yw fflat un ystafell a ddefnyddiwyd i letya person ifanc ag awtistiaeth a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r Gwasanaeth Dilyniant wedi cefnogi'r person ifanc hwn i ymgysylltu â'r gymuned yn lleol ac ymweld â sefydliad byw â chymorth arall i feithrin cyfeillgarwch naturiol. O ganlyniad, mae'r person ifanc yn teimlo y gall fyw'n annibynnol ar becyn cymorth ffurfiol ac mae'n cael ei gefnogi i ddod o hyd i lety hirdymor yn yr ardal gan ei fod yn dymuno parhau i adeiladu ar y rhwydweithiau a'r cyfeillgarwch y mae wedi'i wneud.

Amcan 7 Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi

Fe wnaethom barhau i gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi yn ystod 2023/24.

Yn ystod 2023/24:

- Fe wnaethom roi prosiect peilot o'r enw "Cefnogi Rhieni i Gael Gwaith", sydd wedi'i hanelu at rieni sy'n barod i symud ymlaen o fudd-daliadau i fyd gwaith, mae'r rhaglen hon yn nodi rhwystrau sy'n eu hatal rhag chwilio am waith a'u cefnogi i fynd i'r afael â'r rhain.
- Fe wnaethom hyrwyddo gostyngiadau Ynni'r DU ymysg y gweithlu a'r cyhoedd i annog pobl i hawlio cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau ynni.
- Cafodd y broses ar gyfer hawlio Grant Hanfodion Ysgol (y Grant Gwisg Ysgol gynt) ei gwella a'i symleiddio, gan leihau'r angen i lenwi ffurflenni, a chyflymu'r broses o gyflwyno'r taliadau.
- Cynigiwyd cwrs Lles Ariannol i weithwyr, i helpu gweithwyr i wella eu lles ariannol drwy eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus o ran eu cynllunio ariannol. Mae'r cwrs yn edrych ar bedwar maes allweddol i gefnogi lles ariannol cyffredinol:
    - Deall incwm a chynllunio gwario.
    - Adolygu a chadw cofnod o fenthyca.
    - Cynllunio nodau ariannol a pharatoi ar gyfer y costau annisgwyl hynny.
    - Dechrau cynllunio ar gyfer bywyd tu hwnt i waith pryd bynnag y bydd hynny.
- Cynigiwyd Seminar Cyn-Ymddeol i weithwyr a oedd yn ystyried ymddeol a'r rhai hynny sydd newydd ddechrau meddwl am gynlluniau ymddeol, yn trafod newidiadau i ffordd o fyw, incwm a phensiwn.
- Roedd 2,103 o bobl ifanc 8-18 oed yn gallu archebu cynhyrchion mislif o'r dewis a oedd ar gael, cyflenwad hyd at 3 mis wedi'u pecynnu'n gynnil.
- Cymerodd 484 o blant oedran cynradd ac uwchradd ran yn y Cynllun Bwyd a Hwyl yn ystod gwyliau'r Haf. Dros 12 diwrnod y rhaglen, cymerodd y plant ran mewn ystod eang o weithgareddau cyffrous yn canolbwyntio ar iechyd, hapusrwydd a lles. Bu i'r plant oedd yn mynychu fwynhau brecwast, byrbryd a chinio poeth iach. Mae'r cynllun yn helpu rhieni i dalu costau gofal plant ac yn cynnig cyflogaeth â thâl i bobl leol.

Gwneud gwahaniaeth

Rhaglen Bwyd a Hwyl
Bu i'r plant oedd yn mynychu'r rhaglen Bwyd a Hwyl fwynhau brecwast, byrbryd a chinio poeth iach wedi eu darparu gan Arlwyo a Glanhau NEWydd. Aeth plant â chardiau ryseitiau i fwydo teulu o bedwar adref gyda nhw hefyd.

Mae Bwyd a Hwyl yn canolbwyntio ar addysg maeth, ac yn annog plant i flasu bwydydd newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau bwyd ymarferol bob wythnos. Roedd Hamdden Aura wedi darparu amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon a gemau rhyngweithiol ynghyd ag ystod eang o weithgareddau cyfoethogi a gydlynwyd gan bob ysgol. Bu'r plant yn mwynhau dawnsio, sgiliau syrcas a drymio.

Mae'r rhaglen Bwyd a Hwyl o fudd i ddisgyblion ymhell ar ôl iddi ddod i ben. Mae staff yr ysgol yn adeiladu ar y perthnasoedd y maent wedi'u meithrin â darparwyr a'r sgiliau y maent wedi'u hennill o'r hyfforddiant. Mae enghraifft o hyn i'w weld mewn dwy ysgol sydd wedi gwahodd dietegwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i weithio gyda rhieni ar sesiynau 'Dewch i Goginio'.

4. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

4.1 Datblygwyd systemau o fewn portffolios a gwasanaethau i gofnodi a monitro proffil ein cwsmeriaid yn ôl nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, mae pob gwasanaeth yn wahanol ac nid yw pob nodwedd warchodedig yn cael eu cofnodi ar bob system. Nid oes digon o ddata ar gael ar gyfer dadansoddiad manwl ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau. Mae'n gam gweithredu parhaus i wella'r dull o gasglu data ar draws gwasanaethau.

4.2 Daw'r categorïau a ddefnyddir i goladu data amrywiaeth o Gyfrifiad 2021.

4.3 Er gwaetha'r heriau i gasglu data, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'n prosesau, rydym yn awr yn:

- Cofnodi manylion ethnig defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn bellach yn faes gorfodol ar gronfa ddata cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Monitro proffil tenantiaid, ymgeiswyr digartrefedd a phobl ar y rhestrau aros am dai.
- Cofnodi proffil disgyblion ysgol a lefelau cyrhaeddiad ysgolion.
- Cofnodi a monitro data amrywiaeth i sicrhau nad oes cynrychiolaeth anghymesur o ddefnyddwyr gwasanaeth y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid.

4.4 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud ymchwil ar ran Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, rhwydwaith o holl Swyddogion Cydraddoldeb cyrff cyhoeddus Gogledd Cymru, i helpu i nodi anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau gwarchodedig. Mae'r wybodaeth hon ar gael i wasanaethau ei defnyddio.

4.5 Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi datblygu enghraifft o ffurflen monitro cydraddoldeb gyda Nodyn Canllaw Deg Awgrym i'w Cofio. Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ymhlith y categorïau monitro cydraddoldeb a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru a bydd yn cyfrannu at feincnodi mwy effeithiol.

4.6 Cesglir data ansoddol drwy ddulliau eraill megis arolygon a grwpiau ffocws a thrwy ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint
- Cysylltiadau ffydd
- Fforwm Pobl Hŷn
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cynghorau Ysgol
- Stonewall Cymru
- Travelling Ahead sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr
- Grŵp trawsrywiol Unique
- Grŵp Gweithredu i rai dros 50 oed

4.7 Rydym wedi parhau i gydweithio gyda'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gryfhau ymgysylltu. Yn ystod 2023/24, darparodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol gymorth ariannol i Fenter Iaith Y Fflint a Wrecsam i hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi i unigolion nad oedd yn siarad Cymraeg neu Saesneg a'u hannog i gymryd rhan yn y dathliadau. Parhaodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i hwyluso fforwm rhyng-ffydd a chanolfan amlddiwylliannol. Ymgysylltodd y Tîm â gwahanol gymunedau ar wahanol themâu i helpu i adnabod amcanion cydraddoldeb posibl. Fe

wnaethant hefyd hwyluso gweithdy gyda phobl o leiafrifoedd ethnig ar rwystrau i gyflogaeth gyda chyrff sector cyhoeddus.
Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

4.8 Caiff proffil cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth ei gymharu yn erbyn proffil y gymuned er mwyn adnabod meysydd â gormod o gynrychiolaeth/heb gynrychiolaeth neu sy'n tan gyflawni sydd yn galluogi gwasanaethau i osod targedau ar gyfer gwella. Enghraifft o hyn yw'r gwaith sy'n cael ei gynnal gan y Tîm Troseddu Ieuenctid. Mae data atgyfeiriadau i'r Tîm yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd i nodi anghymesuredd. Cefnogir y gwaith hwn hefyd gan arolygon o'r bobl ifanc sydd wedi'u hatgyfeirio i sicrhau bod y driniaeth wedi bod yn deg.

4.9 Mae defnyddio data yn y ffordd hon yn helpu gwasanaethau i adnabod meysydd posibl o wahaniaethu a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu ac ehangu cyfle cyfartal, drwy osod targedau gwelliant a fydd yn cael eu cynnwys yn y CCS. Defnyddiwyd y wybodaeth yma i nodi Amcanion cydraddoldeb lleol y Cyngor hefyd.

4.10 Defnyddir cymariaethau o lefelau boddhad a chwynion a gwybodaeth o grwpiau ffocws hefyd i adnabod unrhyw feysydd o wahaniaethau posibl a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu a meysydd o densiwn cymunedol sydd yn eu tro yn cyfrannu at ganfod cyfleoedd i ehangu cydraddoldeb a meithrin perthnasau da.

Gwybodaeth Cyflogaeth

4.11 Mae proffil amrywiaeth llawn o'r gweithlu yn cael ei gyhoeddi ar wahân ac mae'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol dan ddyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hwn ar gael ar ein gwefan. **Mae proffil o'r gweithlu i'w weld yn Atodiad 2.**

Fel y gwelir o'r tablau canlynol, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae gostyngiad bach wedi bod yn nifer a chanran y gweithwyr na chwblhaodd yr archwiliad amrywiaeth gweithwyr neu a ddewisodd yr opsiwn "Mae'n well gen i beidio â dweud". Mae cam gweithredu i wella data cydraddoldeb y gweithlu wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

Cymhariaeth o nifer a chanran y gweithwyr na chwblhaodd yr archwiliad amrywiaeth yn 2019 a 2024.

Blwyddyn	2019		2024	
	Heb ddatgan		Heb ddatgan	
Nodwedd warchodedig	Nifer y gweithwyr	% y gweithlu	Nifer y gweithwyr	% y gweithlu
Ethnigrwydd	2031	33.14	1977	32.26
Anabl	2083	33.99	1980	32.31
Cyfeiriadedd rhywiol	3378	55.12	2815	45.93
Crefydd a / neu gred	2867	46.78	2495	40.71

Statws priodasol	2446	39.91	2379	38.82

Cymhariaeth o nifer a chanran y gweithwyr a ddewisodd yr opsiwn "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn yr archwiliad amrywiaeth yn 2019 a 2024.

Nodwedd warchodedig	2019		2024	
	Mae'n well ganddynt beidio â dweud		Mae'n well ganddynt beidio â dweud	
	Nifer y gweithwyr	% y gweithlu	Nifer y gweithwyr	% y gweithlu
Ethnigrwydd	73	1.19	74	1.2
Anabl	160	2.61	147	2.4
Cyfeiriadedd rhywiol	160	2.61	148	2.4
Crefydd a / neu gred	158	2.58	147	2.4
Statws priodasol	39	0.64	28	0.46

4.12 Cesglir gwybodaeth ansoddol drwy adborth gan gynrychiolwyr o'r Undebau Llafur yn y Cyd Bwyllgor Ymgynghori Undeb Llafur.

4.13 Defnyddir gwybodaeth ansoddol a meintiol i ddylanwadu ar asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau ac arferion Adnoddau Dynol ac i adnabod meysydd posibl/gwirioneddol o anghydraddoldeb sydd angen ymchwiliad pellach.

5.0 Cyflog Cyfartal

5.1 Cyflog cyfartal yw talu yr un cyflog i ddynion a merched am wneud gwaith cyfartal fel y diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae tri math o waith cyfartal:

- Mae gwaith tebyg yr un fath neu'n debyg ar y cyfan. Mae'n cynnwys tasgau tebyg sydd angen gwybodaeth a sgiliau tebyg, ac nid yw unrhyw wahaniaethau yn y gwaith yn bwysig yn ymarferol.
- Mae gwaith a ystyrir yn gyfartal wedi cael ei ystyried dan gynllun gwerthuso swyddi dilys ei fod o werth cyfartal o ran pa mor anodd ydyw.
- Nid yw gwaith o werth cyfartal yn debyg ac nid yw wedi'i raddio'n gyfwerth ond mae o werth cyfartal o ran gofynion megis ymdrech, sgiliau a'r gallu i wneud penderfyniadau.

5.2 Mae dadansoddiad manwl o'r Archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol yn ôl rhywedd, anabledd, ethnigrwydd a chrefydd ar 31 Mawrth 2024 yn cael ei gyhoeddi ar wahân ar ein gwefan. Mae crynodeb o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ers cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 24 wedi'i nodi yn y tabl canlynol.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
Yn gyffredinol	13.11%	13.75%	13.71%	12.76%
NJC / Llyfr Gwyrdd	15.00%	15.37%	15.47%	13.99%

6.0 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

6.1 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yw un o'r dulliau a ddefnyddir i wneud cydraddoldeb yn rhan o'r brif ffrwd ac i gefnogi gwasanaethau i adnabod targedau cydraddoldeb penodol.

6.2 Mae templed Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb rhanbarthol wedi'i ddatblygu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru sy'n cynnwys Cydraddoldeb, y Gymraeg ac effeithiau economaidd-gymdeithasol. Cafodd hwn ei rannu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg i gael eu hadborth cyn iddo gael ei fabwysiadu gan aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae hyn bellach wedi cael ei ymgorffori yn ein Hasesiadau Effaith Integredig a ddatblygwyd i gasglu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer ystod o asesiadau effaith, yn cynnwys yr amgylchedd, iechyd, tlodi, a'r Gymraeg. Mae nodiadau arweiniad ar gael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig i gefnogi awduron yr Asesiadau Effaith Integredig.

6.3 Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Manceinion i dreialu adnodd newydd ar gyfer AEI, Adnodd Cefnogi Penderfyniadau ar Garbon a Chyd-fanteision. Mae'r brifysgol bellach ar y cam gwerthuso, gan gyfweld awduron AEI a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall sut mae hyn yn dylanwadu a gwella penderfyniadau. Rhaid i Asesiadau Effaith Integredig gael eu cynnwys ym mhob un o'n hadroddiadau pwyllgor strategol i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall effaith eu penderfyniadau.

6.4 Mae adroddiadau pwyllgorau yn cael eu hadolygu o dro i dro i astudio sampl o asesiadau effaith er mwyn:

- Sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau gan awduron adroddiadau ar gyfer adroddiadau perthnasol.
- Profi ansawdd y cynnwys.

- Sicrhau eu bod ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad i Dîm Prif Swyddog y Cyngor gydag argymhellion ar gyfer gwelliannau.

6.5 Mae hyfforddiant asesiadau effaith pwrpasol ar gael i dimau yn ogystal â rhaglen e-ddysgu.

7.0 Hyfforddiant

7.1 Mae manylion ynglŷn â sut rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth o gydraddoldeb i'w gweld yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae dau becyn e-ddysgu gorfodol yn benodol ar gydraddoldeb:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 - cwblhawyd gan 710 o weithwyr.
- Cydraddoldeb yn y Gweithle - cwblhawyd gan 630 o weithwyr.

7.2 Cefnogir y rhain gan becynnau e-ddysgu ar:

- Caethwasiaeth fodern - cwblhawyd gan 766 o weithwyr.
- Trosedd casineb - cwblhawyd gan 1,067 o weithwyr.

7.3 Mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd yn cael eu cynnwys mewn:

- Rhaglenni'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM), ar bob lefel.
- Modiwlau E-ddysgu i reolwyr newydd.
- Cyflwyniad Corfforaethol

7.4 Yn ystod 2023/24, darparwyd rhaglenni e-ddysgu a gweithdai ar: -

- Darparwyd cwrs Ymwybyddiaeth o Nam ar y Golwg gan Vision Support.
- Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth Troseddau Casineb gan Cymorth i Ddioddefwyr.
- Hyfforddiant Bias Anymwybodol - roedd 31 o weithwyr yn bresennol.
- Ymwybyddiaeth Awtistiaeth (cwblhawyd ar-lein gan 72 o weithwyr ac roedd 39 o weithwyr yn bresennol ar gyfer gweithdai wyneb yn wyneb).
- Ymwybyddiaeth o'r Menopos - 29 o weithwyr yn bresennol.
- Modiwl e-ddysgu Trais yn Erbyn Merched a gwblhawyd gan 722 o weithwyr.
- Niwroamrywiaeth yn y gwaith fel rhan o Wythnos Niwroamrywiaeth 2024.

Fel rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched 2024, roedd cyrsiau Sgiliau Hyder i Ferched a Sgiliau Dylanwadu i Ferched ar gael i weithwyr.

8.0 Caffael

8.1 Mae manylion am sut y caiff cydraddoldeb ei ymgorffori i'r broses Caffael wedi'i nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae cwestiynau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn ein holiadur cyn-gymhwyso
ar gyfer pob tendr. Hefyd, mae Caethwasiaeth Fodern wedi cael ei gynnwys fel elfen yn yr holiadur, mae'n edrych ar y camau y mae contractwyr arfaethedig yn eu cymryd i ddileu caethwasiaeth fodern yn eu gweithlu a chadwyni cyflenwi. Hefyd,

mae cymalau ar werth cymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn contractau dros £1 miliwn; mae contractau o £10,000 yn cynnwys elfen o werth cymdeithasol yn y dulliau sgorio.

8.2 Rydym wedi cofrestru â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rydym wedi ymrwymo i set o weithredoedd i fynd i'r afael â chyflogaeth anghyfreithiol ac annheg. Rydym yn cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern, sy'n nodi'r camau fyddwn ni'n eu cymryd i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

9.0 Casgliad

9.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym yn ei wneud i fodloni'r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus cyffredinol a phenodol. Fodd bynnag, mae'n glir ei bod wedi bod yn heriol casglu rhywfaint o'r data i fonitro cynnydd. Ein blaenoriaethau yw:

- Sefydlu Grŵp Data i ddatblygu a gwella casglu a dadansoddi data gweithwyr a chwsmeriaid ar draws y Cyngor.
- Gwella ansawdd a nifer yr Asesiadau o Effaith Integredig sy'n cael eu cwblhau a sefydlu Grŵp Sicrhau Ansawdd newydd i oruchwylio hyn.
- Rhoi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 newydd ar waith sy'n ymgorffori camau gweithredu o Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru a LHDTC+ Llywodraeth Cymru yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28.

Diolch am ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2023/2024.

Atodiad 1 Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020- 2024

Cynnydd 2023/24

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Sefydlu Cartref Plant cofrestredig er mwyn helpu i osgoi'r angen i leoli plant y tu allan i Sir y Fflint.	Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant	Mae ymrwymiad Sir y Fflint i ddatblygu rhaglen o gartrefi plant i helpu i osgoi'r angen am leoliadau preswyl y tu allan i'r sir yn parhau. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi llwyddo i gofrestru 4 o'n 5 Cartref Preswyl Plant newydd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Rydym yn parhau i weithio gydag AGC mewn perthynas â'r broses gofrestru ar gyfer yr olaf o'r pum cartref.
Parhau i ddatblygu gwasanaethau i helpu i ostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, drwy ailgomisiynu gwasanaethau presennol.	Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant	Mae gan y gwasanaeth Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig ddau aelod o staff penodol sy'n cefnogi datblygiad dewisiadau Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		Bydd ailgomisiynu ar gyfer y Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn dechrau ym mis Ebrill 2025. G
Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth maethu mewnol i gefnogi mwy o blant sy'n derbyn gofal, wedi'i fesur gan y cynnydd mewn gofalwyr maeth newydd cymeradwy yn ystod y flwyddyn	Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant	Lansiwyd Ymgyrch yr Arth Faeth ym mis Ionawr 2023 mewn cydweithrediad ag Ysgolion Cynradd ar draws Sir y Fflint i godi ymwybyddiaeth o faethu yn yr awdurdod lleol ac amlinellu'r angen brys i recriwtio mwy o ofalwyr maeth yn y sir. Hyd yma, mae tair ar ddeg o ysgolion cynradd yn y sir wedi croesawu'r Arth Faeth i'w hystafelloedd dosbarth, ac mae'r plant yn cael pecyn gweithgareddau sy'n cynnwys tedi-bêr o'r Arth Faeth a llyfr gweithgareddau i fynd adref gyda nhw. G
Cynllunio i ddarparu lleoliadau ychwanegol ar gyfer 'rhyddhau i wella ac asesu' yn y ddarpariaeth fewnol	Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion / Rheolwr Comisiynu	Mae'r cynlluniau dylunio terfynol ar gyfer Tŷ Croes Atti wedi'u cymeradwyo ac mae'r gwaith adeiladu wedi hen ddechrau ar y

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		safle lle’r oedd Ysbyty Bach Y Fflint gynt. Bydd hyn yn cynyddu’r capasiti ar gyfer gofal cam-i-lawr o fewn ein darpariaeth fewnol, cytunwyd ar 12 gwely Cam-i-lawr Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) yn Nhŷ Croes Atti, a fydd yn cynyddu’r ddarpariaeth ar draws Sir y Fflint o’i lefel bresennol o 16 i gyfanswm o 28. Disgwyliwn y bydd y cyfleuster hwn wedi’i gwblhau ac yn weithredol erbyn mis Ebrill 2025. G
Parhau i ddatblygu'r farchnad Micro-ofal, wedi'i fesur gan y cynnydd mewn darparwyr Micro-ofal. Y data sylfaenol o 2021/22 yw 24 a’r targed erbyn 2023 yw 34.	Rheolwr Comisiynu	Mae 14 o fentrau micro-ofal newydd wedi cael eu sefydlu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn wedi cynyddu nifer y micro-ofalwyr i 50 gyda 16 arall o bosib ar y ffordd. Rydym yn awr hefyd yn gallu comisiynu cefnogaeth gan Ficro-Ofalwyr. G
Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth gofal cartref mewnol i gefnogi mwy o bobl i fyw gartref, wedi’i fesur yn ôl y gyfradd o gynyddu’r bobl dros 65 oed sy’n cael cymorth i fyw gartref o 33 mewn 1,000 i 34 mewn 1,000.	Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion / Rheolwr Comisiynu	Mae Sir y Fflint yn parhau i ddefnyddio cynllun recriwtio parhaus i dyfu ein gwasanaeth gofal cartref mewnol i gefnogi mwy o bobl i fyw'n

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		dda gartref. Fodd bynnag, mae recriwtio ar draws gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn her. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae gan y gwasanaeth gofal cartref dîm tasg dynodedig sy'n edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddenu ymgeiswyr i'r gwasanaeth, a chynhaliwyd digwyddiad recriwtio ym mis Mawrth 2024. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn cefnogi'r gwasanaeth i dyfu ac ehangu'r cynnig i bobl sy'n byw yn ein cymunedau.
Datblygu Strategaeth Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod ein plant, 0-7 oed yn cael y dechreuad gorau posib mewn bywyd ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.	Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant	Mae Strategaeth Blynyddoedd Cynnar ddrafft wedi'i chwblhau. Fodd bynnag, oherwydd i LlC gyhoeddi y bydd cyllid y Prosiect Braenaru Blynyddoedd Cynnar yn dod i ben ym mis Rhagfyr, 12 mis yn gynt na'r disgwyl, mae'n rhaid i benderfyniad gael ei wneud gan Fwrdd Blynyddoedd Cynnar Sir y Fflint (Mehefin 2024) a'r Bartneriaeth Ranbarthol (Ebrill 2024) ar y ffordd

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys blaenoriaethu prosiectau presennol.
Gweithio yn unol â'r cynllun gweithredu i wella cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Cenedlaethol ar Awtistiaeth ymhellach.	Rheolwr Comisiynu	Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu lleol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar Awtistiaeth. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei werthuso ar hyn o bryd fel rhan o werthusiad cenedlaethol Llywodraeth Cymru o gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso'r Cynllun ac mae gwaith yn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth â phob cam gweithredu. G
Parhau i ddatblygu gwasanaethau gofalwyr drwy bartneriaeth gyda darparwyr Trydydd Sector	Rheolwr Comisiynu	Mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru sawl bocs Gaeaf Cynnes ar gael i ofalwyr i'w cefnogi gyda chostau gwresogi. Mae'r bocsys yn cynnwys adlewyrchyddion rheiddiaduron, ffilm ffenestr ac eitemau o ddillad cynnes a blancedi cnu. Mae GOGDdC hefyd wedi cael arian i brynu blancedi trydan, sy'n helpu i gadw'r gwres wedi'i droi i lawr.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		Mae cyrsiau'n cael eu trefnu gyda Scottish Power a Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint a fydd yn cefnogi gofalwyr gyda chostau ynni uchel. Bydd y cyrsiau’n edrych ar ddulliau arbed ynni a’r cymorth ariannol sydd ar gael i ofalwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu ein gwasanaethau cyfredol a gomisiynir i ddeall beth sy'n gweithio a lle y gallai fod bylchau y mae angen i ni eu llenwi i gefnogi ein gofalwyr. Rydym yn gweithio i sicrhau y bydd yr hyn a gomisiynir yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda’r gofalwyr eu hunain, gan sicrhau bod ganddynt fewnbwn i’r gwasanaethau sydd ar gael.
Sefydlu Grŵp Gweithredu Strategaeth Dementia, i gynnwys cynrychiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd.	Rheolwr Comisiynu / Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion	Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Strategaeth Dementia yn 2022 i weithredu’r camau allweddol a nodwyd yn y Strategaeth Ddementia ar gyfer Sir y Fflint. Mae'r camau gweithredu yn cyd-fynd â gweithredu

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Mae'r Bwrdd Prosiect yn cyfarfod bob deufis ac yn derbyn mewnbwn ac adborth gan ddinasyddion drwy gysylltu â Grŵp Cadeiryddion Cymuned sy'n Deall Dementia. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar gefnogi gweithrediad y Cynllun Cymuned sy'n Deall Dementia newydd i Ogledd Cymru a'r blaenoriaethau a nodwyd gan bobl â phrofiad bywyd yn ystod yr Ymgyrch Gwrando ar Ddementia yn ddiweddar. G
Hyrwyddo defnydd creadigol o daliadau uniongyrchol gydag unigolion a gofalwyr i gyflawni eu canlyniadau.	Uwch-Reolwr Gwasanaethau Oedolion	Mae'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yn parhau i annog dinasyddion ac ymarferwyr gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar a datblygu atebion pwrpasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn ar gyfer diwallu anghenion gofal cymdeithasol a aseswyd ac i helpu

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		pobl i gyflawni canlyniadau lles y cytunir arnynt. Dywedodd gofalwyr fod y Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles hwy, a lles y rhai y gofelir amdanynt. Teimlai gofalwyr eu bod yn gallu cael eu cynnal yn eu rôl ofalu a pharhau i gefnogi'r rhai y gofelir amdanynt i barhau i fyw gartref. . G
Datblygu Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc a’r Cerdyn ID Gofalwyr Ifanc ymhellach	Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant	Lansiwyd ein Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc yn llwyddiannus, ac mae nifer y bobl sy’n ymgysylltu â ni ac yn defnyddio’r cerdyn wedi bod yn cynyddu. Bellach mae gennym fwy na 400 o Ofalwyr Ifanc ledled Sir y Fflint wedi cofrestru gyda'r cynllun. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu cysylltiadau gyda busnesau lleol i’w hannog i gynnig gostyngiadau pris a buddion i bobl ifanc sydd â Cherdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc. Gwneir hyn i ddiolch iddynt am y gwaith maent yn ei wneud fel Gofalwr Ifanc.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		G
Gweithio mewn partneriaeth ag Aura a Street Games i gyflwyno sesiwn ffitrwydd ar-lein am ddim i bobl ifanc LHDT	Swyddog Gwybodaeth a Chyfranogi	Cynigiwyd y sesiynau wyneb yn wyneb i ysgolion uwchradd ar draws y Sir. Fe wnaeth un ysgol uwchradd fideo i arddangos eu gwaith. Mae'r prosiect hwn wedi dod i ben. G
Datblygu cynllun gweithredu i ymateb i'r ymchwil rydym wedi ei gomisiynu i anghenion iechyd Teithwyr.	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	Mae'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi a bydd yr argymhellion yn cael eu hystyried a'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024 – 28, lle bo'n berthnasol, wrth symud ymlaen. G
Datblygu gwersyll dros dro i Deithwyr i leihau nifer y gwersylloedd heb awdurdod mewn lleoliadau nad ydynt yn ddiogel nac yn iach a gwella mynediad at wasanaethau iechyd.	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	Mae lleoliad y safle tramwy wedi'i gytuno, yn aros am gymeradwyaeth i symud ymlaen â'r cais cynllunio. Mae adroddiadau i geisio cymeradwyaeth wedi dechrau. G
Gweithio gyda'r Tîm Bydwragedd Cymunedol a'r Tîm Brechlynnau i wneud yn siŵr bod mwy o blant Teithwyr	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	Mae brechlyn MMR wedi cael ei gynnig i bob teulu yn Sir y Fflint. Mae neges fideo wedi cael ei rhannu gan

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
yn cael y brechlyn MMR (y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela).		arweinwyr y gymuned Teithwyr i annog pobl i fanteisio ar y cynnig. G
Rhoi strategaeth Iechyd a Lles ar waith i'n gweithwyr a chyflwyno mentrau i wella eu hiechyd meddwl.	Uwch Reolwr AD a DS	Cyflwynwyd gwyliau blynyddol ychwanegol ym mis Hydref 2022. G

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Rhoi system electronig ar waith i gofnodi ac adrodd ar fwlio'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion.	Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu	Mae platfform adrodd Herio Bwlio ar-lein wedi cael ei sefydlu er mwyn i ysgolion allu rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw ddigwyddiadau.Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 adroddwyd am 28 o ddigwyddiadau gan ysgolion. Gwnaethpwyd 17 o'r adroddiadau gan 10 o ysgolion cynradd. Gwnaethpwyd 11 o'r adroddiadau gan 3 ysgol uwchradd. G

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Monitro Adroddiadau Arolygu Estyn a nodi unrhyw broblemau cydraddoldeb mewn ysgolion i dargedu cymorth i ysgolion	Uwch Reolwr Gwella Ysgolion	Mae cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael ei fonitro gan GwE a'r Awdurdod Lleol. Dim ond un argymhelliad (mewn un ysgol) sydd wedi nodi unrhyw broblemau cydraddoldeb - gwella amrywiaeth yn y cwricwlwm. G
Monitro cydymffurfiaeth gan bob ysgol ar Barchu Eraill gan Lywodraeth Cymru (arweiniad statudol).	Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu	Fel rhan o broses adrodd yr ysgolion ar ddiogelu i'r awdurdod lleol, gofynnir iddynt ddatgelu os oes ganddynt bolisïau perthnasol a chyfredol ar waith, yn cynnwys Parchu Eraill. Mae'r ymarfer hwn bellach yn cael ei gynnal bob blwyddyn, a thrwy fonitro ysgolion yn y modd hwn, gellir mynd ar eu trywydd os nad oes ganddynt bolisi gweithredol / os oes arnynt angen cefnogaeth ychwanegol. Mae ymgysylltiad ysgolion gyda'r platfform adrodd Parchu Eraill ar-lein hefyd yn ffordd o fonitro cydymffurfiaeth ysgolion gyda'r canllawiau. G

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Monitro cyfraddau gwahardd fesul grwpiau gwarchodedig i dargedu cefnogaeth i ysgolion.	Uwch Ymgynghorydd Addysgu – Ymgysylltiad	Parhaus. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid wedi cydnabod y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r targed hwn. G
Monitro absenoldeb cyson fesul nodweddion gwarchodedig.	Uwch Ymgynghorydd Addysgu – Ymgysylltiad	Cynhaliwyd adolygiadau data rheolaidd bob hanner tymor i nodi unigolion diamddiffyn. Ymwelodd y Tîm Lles Cynhwysiant ag unrhyw blant a ddynodwyd eu bod yn ddiamddiffyn. Mae Swyddogion Lles Cynhwysiant wedi eu hyfforddi i broffilio tueddiadau mewn presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Rhoddwyd system technoleg gwybodaeth newydd ar waith ym mis Ionawr 2024, ac mae hyn wedi arwain at rai problemau technegol o ran proffilio absenoliaeth. G
Sicrhau bod pob ysgol yn cael mynediad at hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern.	Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu	Mae'r Swyddfa Gartref yn cynnig dau gwrs e-ddysgu am ddim ar gaethwasiaeth fodern:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		Hyfforddiant ymatebwr cyntaf. Mae'r cwrs hwn yn darparu canllawiau ar: • sut i adnabod arwyddion o gaethwasiaeth fodern • sut i atgyfeirio pobl at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol **Dioddefwyr caethwasiaeth fodern sy'n blant** Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â: • arwyddion o gaethwasiaeth fodern sy'n benodol i blant • y broses ddiogelu • yr arfer orau ar gyfer atgyfeirio plant at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol Mae pob cwrs yn 45 munud o hyd ac mae arweinwyr Diogelu Dynodedig a dirprwy arweinwyr mewn ysgolion yn cael eu cynnal i gwblhau'r ddau gwrs.
Lleihau'r bwlch a lefel cyrhaeddiad addysgol i rai sy'n gymwys i gael/rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim.	Uwch Reolwr Gwella Ysgolion	Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ailddechrau adrodd ar ganlyniadau cyfnod allweddol 4 ar lefel ysgol gan

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	Pwy	Cynnydd
		ddefnyddio'r dull a fabwysiadwyd cyn y pandemig. Nid yw meincnodi, cymariaethau â sefydliadau eraill, a gosod ysgolion ac awdurdodau lleol mewn trefn bellach yn dderbyniol nac yn bosibl. Yr unig ddata cymharol sydd ar gael i awdurdodau lleol yn y cyfnodau allweddol hyn yw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Disgwyliad LlC yw bod y wybodaeth am berfformiad yn cael ei defnyddio i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall eu cyd-destun eu hunain a gwella eu cynnig eu hunain. Ni ddylid defnyddio'r wybodaeth ar ei phen ei hun i feirniadu perfformiad neu gymharu ysgolion. Yng nghyfnod allweddol 4 2022/23, bu i ddisgyblion Sir y Fflint nad oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim sgorio'n uwch yn y dangosydd Capio 9 (fersiwn mesurau dros dro) gyda 375.5 pwynt na'r disgyblion a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim gyda 287.4 pwynt. Roedd y bwlch hwn o 88.1 pwynt ychydig yn llai o'i gymharu â'r bwlch cenedlaethol o 88.8 pwynt.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		A
Parhau i ddatblygu / ehangu'r Grŵp Ieuenctid LHDT	Swyddog Gwybodaeth a Chyfranogi	Mae'r Grŵp LHDT+ yn parhau yn ystod y tymor ac yn cael ei ddarparu gan Theatr Clwyd yn Yr Wyddgrug. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hyrwyddo'r grŵp drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn cyfeirio pobl ifanc at y grŵp. G
Datblygu partneriaeth gyda Viva i gynnig grŵp LHDT+ ychwanegol a fydd yn cyfarfod gyda'r nos	Swyddog Gwybodaeth a Chyfranogi	Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth gyda Viva a Pride Cymru i ddarparu clwb ieuenctid LHDT+ ddwywaith y mis yn ystod y tymor. Caiff y sesiynau hyn eu hyrwyddo drwy gyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Ieuenctid a sesiynau galw heibio gyda'r Swyddog Gwybodaeth a Chyfranogi. G
Monitro Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cyrraedd y system cyfiawnder ieuenctid	Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid	Monitro parhaus drwy Gynllun Gweithredu Anghyfartaledd y

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		gwasanaeth ac adroddiadau i Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid G
Monitro effaith y Grant Datblygu Disgyblion a ddirprwywyd i ysgolion i gau'r bwlch cyrhaeddiad i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.	Uwch-Reolwr Systemau Gwella Ysgolion	Yng nghyfnod allweddol 4 2022/23, bu i ddisgyblion Sir y Fflint nad oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim sgorio'n uwch yn y dangosydd Capio 9 (fersiwn mesurau dros dro) gyda 375.5 pwynt na'r disgyblion a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim gyda 287.4 pwynt. Roedd y bwlch hwn o 88.1 pwynt ychydig yn llai o'i gymharu â'r bwlch cenedlaethol o 88.8 pwynt. G
Codi proffil pynciau STEM i ddisgyblion o gefndir Du a Lleiafrif ethnig.	Uwch Reolwr Gwella Ysgolion	Mae gwaith i hyrwyddo pynciau STEM ymhellach yn rhan o gynlluniau cefnogi i ysgolion unigol pan fo'n berthnasol. G
Darparu canllawiau diwygiedig polisi Traws ac adnoddau i ysgolion	Ymgynghorydd Dysgu, Iechyd, Lles a Diogelu	Mae'r Canllawiau Lleol ar fod yn Drawsrywiol ar gyfer Ysgolion wedi cael eu rhoi i un ochr nes y ceir Canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y canllawiau yn 2024. Byddant yn cael eu cyhoeddi wedi hynny. Bydd hyn yn llywio sut y bydd y polisi lleol yn cael ei adolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ysgolion wedi bod yn mynychu hyfforddiant Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) drwy gydol y flwyddyn yn cynnwys sefydlu clystyrau ACRh gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd i fodloni gofynion y Cod ACRh. Mae'r Cod ACRh gorfodol yn cefnogi ysgolion i ddylunio eu ACRh. Mae'r cynnwys wedi'i osod yng nghyd-destun elfennau dysgu eang wedi eu cydgysylltu, sef: perthnasau a hunaniaeth; iechyd rhywiol a lles; grymuso, diogelwch a pharch. Mae clystyrau wedi derbyn cyllid i gael mynediad at hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r elfennau dysgu. A

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Cynnal archwiliad cyflogau blynyddol a datblygu camau gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng dynion a merched a grwpiau gwarchodedig eraill.	Swyddog Polisïau a Gwobrwyo AD	Cyhoeddwyr yr adroddiad ar gyfer 2022/23 ym mis Mawrth 2024, yn unol â'r amserlenni adrodd statudol. Nid yw'r adroddiad ar gyfer 2023/24 wedi cael ei gyhoeddi eto. G
Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael gwaith â thâl drwy Project Search.	Tîm Cynllunio a Datblygu	Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod cyffrous i'r rhaglen Prosiect SEARCH leol o ran arloesi a datblygu'r gwasanaeth lleol. Yn Sir y Fflint, ehangodd y rhaglen i gynnig dwy raglen wahanol a dyma oedd y cynllun Project SEARCH cyntaf yn y DU i gynnig rhaglen bwrpasol i oedolion dros 25 oed. Mae'r ehangiad yn cynnig dau gynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae dwy seremoni raddio wedi cael eu cynnal i fyfyrwyr ddathlu cwblhau eu hinterniaethau gyda'u teulu a'u ffrindiau. G
Cyflawni Lefel 3 Arweinydd Hyderus o ran Anabledd - Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau	Swyddog Polisïau a Gwobrwyo AD	Rydym wedi cynnal statws lefel 2 y Cynllun. G

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Parhau i weithio gyda phrosiect “Llechen Lân Cymru”, menter a ariennir gan Fwrdd Hyfforddi’r Diwydiant Adeiladu (CITB) i gefnogi Ffoaduriaid a Theithwyr i gael gwaith.	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	Hwyluswyd cwrs ychwanegol gan Gyrfa Cymru yn Yr Wyddgrug, lle’r oedd ffoaduriaid yn bresennol. G
Parhau i gasglu data amrywiaeth gan gyflogwyr i gynyddu’r gyfradd ymateb	Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD	Mae data amrywiaeth yn parhau i gael ei gasglu ac yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Cesglir data nad yw'n ymwneud ag ysgolion yn ystod y cam recriwtio. Fodd bynnag, mae bylchau mewn data ysgolion o hyd. Mae TGCh yn datblygu system ddilysu dau gam fel bod Hunan-wasanaeth Gweithwyr yn cael ei gyflwyno i weithwyr ysgolion a fydd yn galluogi cofnodi data amrywiaeth. G
Monitro cydraddoldeb y gweithlu yn flynyddol a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw anghydraddoldebau a’u lleihau.	Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD	Mae’r adroddiad ar gyfer 2023/24 wedi cael ei gwblhau ond nid yw wedi cael ei gyhoeddi eto. A
Dynodi cyfleoedd i ddefnyddio gweithredoedd positif i leihau anghydraddoldebau.	Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD	Dadansoddiad i gael ei gynnal yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		A
Datblygu dull strategol a chyson o gynnwys gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael i gynyddu cyfleoedd am brentisiaethau i bobl anabl, pobl o gefndir Du neu leiafrif ethnig a merched.	Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol	Mae contractau dros £25k yn cael eu hasesu i weld os y gellir ychwanegu gwerth cymdeithasol. Mae'n orfodol ar gyfer contractau dros £1 miliwn. Mae recriwtio pobl anabl a phobl o gefndir du a lleiafrif ethnig wedi'i gynnwys fel dewis gwerth cymdeithasol ar gyfer contractwyr. G
Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb.	Ymgynghorydd Polisi Strategol	Mae'r modiwlau e-ddysgu ar gyfer cydraddoldeb yn orfodol ac mae prosesau bellach ar waith i hysbysu rheolwyr am y rhai sydd heb gwblhau'r modiwlau. Mae hyn yn golygu bod cynnydd yn y cyfraddau cwblhau bellach. Mae dros 65% o weithwyr wedi cwblhau'r modiwl hyfforddi hwn. G

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Parhau i hyfforddi gweithwyr mewn timau allweddol i adnabod ac adrodd ar ddigwyddiad a ysgogwyd gan gasineb a throseddau casineb.	Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol	Darperir hyfforddiant ar droseddau casineb yn rheolaidd drwy Gymorth i Ddioddefwyr. G
Codi ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau casineb a throseddau casineb mewn ysgolion drwy Grant Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru.	Ymgynghorydd Polisi Strategol / Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol	Darparwyd hyfforddiant ar draws ysgolion Sir y Fflint. G
Datblygu mentrau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol drwy'r Grant Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol.	Ymgynghorydd Polisi Strategol / Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol	Cynhaliwyd nifer o weithgareddau gan y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn cynnwys y prosiect Gwahanol Gyda'n Gilydd, gan ddod â phobl o gefndiroedd gwahanol at ei gilydd ar-lein. G
Cymryd rhan ym mis Hanes LHDT.	Ymgynghorydd Polisi Strategol	Cynhaliwyd dathliad ar-lein drwy godi'r faner Enfys a hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol a datganiad i'r wasg. G
Cymryd rhan yn yr wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb flynyddol i gynyddu adroddiadau ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.	Ymgynghorydd Polisi Strategol	Fe wnaethom weithio gyda Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i hyrwyddo

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. G
Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cwblhau modiwlau e-ddysgu Llywodraeth Cymru ar Drais Domestig yn erbyn Merched.	Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD	Mae dros 83% o weithwyr bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant. G
Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern.	Ymgynghorydd Polisi Strategol	Mae dros 64% o weithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern. G

Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Cynllun Gweithredu		
Amcan 5: Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Rhoi prosesau monitro cydraddoldeb ar waith mewn gwasanaethau allweddol i ddynodi rhwystrau posibl i fynediad	Ymgynghorydd Polisi Strategol	Mae'r cam gweithredu hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac yn cael ei ddwyn ymlaen. G
Cwblhau'r adolygiad o'r wefan i wneud yn siŵr ei bod yn bodloni safonau hygyrchedd	Pensaer Datrysiadau Digidol	Mae gwiriadau wythnosol yn cael eu gwneud i wirio cydymffurfiaeth. Mae Grŵp Gwefan y Cyngor cyfan wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod y wefan yn bodloni safonau hygyrchedd.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Cynllun Gweithredu		
Amcan 5: Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		G
Adolygu cyfleoedd i wella mynediad at gludiant cyhoeddus i bobl anabl a phobl eraill	Rheolwr Cludiant	Mae gwasanaeth Fflecsi wedi cael ei gyflwyno yn Nhreffynnon ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae trefniadau teithio lleol wrthi'n cael eu hadolygu yn dilyn ymarfer caffael. Mae'r holl Gynlluniau Teithio Llesol ar gyfer 2023/24 wedi cael eu cwblhau, yn ogystal â phecyn cyfleusterau croesi ar hen safleoedd Hebryngwyr Croesfannau Ysgol. Mae cynlluniau Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned yn cael eu datblygu yn dilyn dyfarniad cyllid llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru. G
Datblygu cynllun gweithgareddau ar gyfer y model newydd o Wasanaethau Archif sy'n targedu ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig.	Prif Archifydd	Mae'r cais am gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a oedd yn cynnwys Cynllun Gweithgareddau drafft, wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r Cynllun Gweithgaredd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. G
Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi WiFi ar safleoedd Teithwyr yn cynnwys safleoedd dros dro.	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	Mae'r cais hwn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Arhosir am ganlyniad gan Lywodraeth Cymru.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Cynllun Gweithredu		
Amcan 5: Cynyddu mynediad at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		G
Gweithio gydag Aura (gwasanaethau hamdden) a Street Games i ddarparu gweithgareddau chwaraeon wedi eu trefnu ar ein safleoedd teithwyr ein hunain	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	Mae cais wedi cael ei wneud i'r Gronfa Trais Difrifol i gefnogi'r gweithgaredd hwn. Mae dau swyddog ymgysylltu ag ieuenctid wedi cael eu cyflogi i weithio gyda phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant sy'n ffoaduriaid am ddeuddeg mis.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 6: Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Datblygu cynllun ar gyfer safle dros dro i Deithwyr	Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr	Mae lleoliad y safle tramwy wedi'i gytuno, yn aros am gymeradwyaeth ffurfiol i symud ymlaen â'r cais cynllunio. G
Dod yn ardal adsefydlu i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid		Rydym yn awr yn cefnogi 10 o deuluoedd yn Sir y Fflint sy'n byw mewn Llety Gwasgaru. Targed y Swyddfa Gartref ar gyfer 2024/2025 yw 377 gwely yn Sir y Fflint. G

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 7: Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
Sicrhau mynediad i gynhyrchion mislif, yn rhad ac am ddim ac yn hygyrch yn y ffordd fwyaf ymarferol ac urddasol posibl i: • bob dysgwr ym mhob ysgol; • pawb sy'n cael mislif; a • blaenoriaethu'r rhai o aelwydydd incwm isel.	Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu	Mae gan bob disgybl benywaidd yn ysgolion Sir y Fflint (x78) fynediad at ddewis o gynhyrchion mislif yn yr ysgol. Mae cynhyrchion mislif yn cael eu dosbarthu drwy bob canolfan Banc Bwyd yn y sir. Mae pob grŵp ieuenctid wedi cael detholiad o gynnyrch mislif. Mae Swyddogion Hamdden Aura yn cario pecynnau cynnyrch mislif gyda nhw ac mae'r cynnyrch yn cael ei hyrwyddo ar draws cyfleusterau toiled mewn canolfannau hamdden a llyfrgelloedd. Caiff cynhyrchion eu dosbarthu hefyd drwy 15 o leoliadau dysgu i oedolion yn y gymuned. Mae staff addysg a staff cymunedol wedi cael hyfforddiant ar gynnyrch mislif er mwyn cefnogi a chael sgyrsiau effeithiol gyda'r unigolion hynny sy'n cael mislif a deall mwy am y cynnyrch sydd ar gael. Mae digwyddiadau cymunedol wedi cael eu cynnal ar-lein ar gyfer rhieni/gofalwyr pobl ifanc i godi ymwybyddiaeth am gynnyrch mislif ac iechyd mislifol. Cynhaliwyd rhaglen archebu cynnyrch mislif golchadwy ar-lein i bobl ifanc rhwng 8

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 7: Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		a 18 oed drwy gydol mis Mawrth 2024. G
Cynyddu’r niferoedd sy’n mynychu’r rhaglen Bwyd a Hwyl (Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau’r Ysgol yn flaenorol) yn ystod gwyliau haf yr ysgol.	Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu	Elwodd 484 o blant o’r Rhaglen Bwyd a Hwyl mewn 13 ysgol yn ystod Haf 2023 yn cynnwys dwy ysgol arbennig. Bu i’r plant oedd yn mynychu fwynhau brecwast, byrbryd a chinio poeth iach. Mae Bwyd a Hwyl yn canolbwyntio ar addysg maeth a gweithgarwch corfforol, ac yn annog plant i roi cynnig ar fwydydd a gweithgareddau corfforol newydd bob wythnos. Darparwyd 496 o Fagiau Bwyd (cynhwysion pantri) i fwydo teulu o bedwar, i rieni y plant a oedd yn bresennol. G
Parhau i godi ymwybyddiaeth am Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a sicrhau bod pob aelwyd ar incwm isel yn ymwybodol o’r hyn y mae ganddynt hawl iddo a sut i wneud cais.	Rheolwr Tîm - Asesu Budd-daliadau	Mae camau gweithredu wedi cynnwys: • Gohebiaeth wedi'i diweddaru a anfonwyd at bob ymgeisydd am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Cinio Ysgol am Ddim a Grantiau Hanfodion Ysgol i'w hysbysu y

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 7: Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		gallent hefyd fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. • Wedi creu Canolfan Costau Byw i alluogi i gwsmeriaid gael mynediad hawdd at wybodaeth mewn perthynas â'r holl Fudd-daliadau a Grantiau gan gynnwys Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. • Cysylltu â chwsmeriaid sy'n hawlio Budd-dal Tai yn unig i weld a ydynt yn dymuno hawlio Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. • Hyrwyddir i bob cartref sy'n talu Treth y Cyngor fel rhan o filiau blynyddol. • Hyrwyddo mewn digwyddiadau rhwydweithio/canolfannau lleol. G
Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Tîm Diwygio Lles sy'n gallu cefnogi unrhyw gwsmer y mae'r newidiadau Diwygio Lles yn effeithio arnynt neu sy'n cael trafferthion ariannol.	Rheolwr Tîm Diwygio'r Gyfundrefn Les	Mae atgyfeiriadau'n parhau i gael eu derbyn oherwydd parhad effeithiau costau byw. Rhagwelir y bydd y ffigurau'n parhau i godi gyda biliau ynni cynyddol a chostau byw yn gyffredinol.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol- Cynllun Gweithredu		
Amcan 7: Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi		
Cam Gweithredu	**Pwy**	**Cynnydd**
		G
Parhau i godi ymwybyddiaeth i sicrhau bod pob aelwyd ar incwm isel yn ymwybodol y gallant fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a Grant Gwisg Ysgol.	Rheolwr Tîm - Grantiau a Pherfformiad.	Mae camau gweithredu wedi cynnwys: • Cysylltu â'r holl gwsmeriaid sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim nad oeddent wedi hawlio'r Grant Hanfodion Ysgol, i'w hysbysu eu bod yn gymwys a, lle bo angen, i roi cymorth i lenwi'r ffurflen gais. • Hyrwyddo drwy'r wefan ac ysgolion. • Hyrwyddo mewn digwyddiadau rhwydweithio/canolfannau lleol. G
Darparu cymorth cyfannol ac ariannol i gwsmeriaid sydd mewn trafferthion ariannol cyn iddynt fynd i dlodi.	Rheolwr Tîm Diwygio'r Gyfundrefn Les	Mae cyngor a chymorth parhaus yn rhan o'r broses ymgeisio am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai hyd yn oed os yw'n aflwyddiannus. Mae cefnogaeth yn cael ei hyrwyddo mewn digwyddiadau rhwydweithio / canolfannau lleol. G

Atodiad 2 Proffil o’r gweithlu (yn cynnwys gweithwyr ysgol) ar 31 Mawrth 2024

Proffil gweithwyr yn ôl Tarddiad Ethnig

2024		
Tarddiad Ethnig	**Cyfanswm y gweithwyr**	**% y gweithwyr**
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	54	0.88%
Gwyn	4024	65.66%
Heb Ddatgan	1977	32.26%
Mae’n well ganddynt beidio â dweud	74	1.20%
Cyfanswm	**6129**	**100.00%**

Proffil y gweithwyr sy'n categoreiddio eu hunain fel bod yn anabl

2024		
Gweithwyr Anabl	**Cyfanswm y gweithwyr**	**% y gweithwyr**
Nac ydw	3818	62.29%
Heb Ddatgan	1980	32.31%
Ydw	184	3.00%
Mae’n well ganddynt beidio â dweud	147	2.40%
Cyfanswm	**6129**	**100.00%**

Proffil gweithwyr yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

2024		
Cyfeiriadedd Rhywiol	**Cyfanswm y gweithwyr**	**% y gweithwyr**
Deurywiol	33	0.54%
Dyn Hoyw	19	0.31%
Menyw Hoyw / Lesbiaidd	27	0.44%

Heterorywiol / Strêt	3072	50.12%
Heb Ddatgan	2815	45.93%
Arall	15	0.24%
Mae'n well ganddynt beidio â dweud	148	2.41%
Cyfanswm	**6129**	**100.00%**

Proffil o weithwyr yn ôl Crefydd a Chred

Crefydd neu Gred	2024	
	Cyfanswm y gweithwyr	% y gweithwyr
Bwdhaeth	7	0.11%
Cristnogaeth	1955	32.06%
Hindŵaeth	1	0.02%
Iddewiaeth	2	0.03%
Islam	5	0.08%
Dim	1435	23.41%
Heb Ddatgan	2495	40.71%
Arall	71	1.16%
Mae'n well ganddynt beidio â dweud	147	2.40%
Sikhiaeth	1	0.02%
Cyfanswm	**6129**	**100.00%**

Proffil gweithwyr yn ôl Statws Priodasol

Statws Priodasol	2024	
	Cyfanswm y gweithwyr	% y gweithwyr
Wedi Ysgaru neu mewn Partneriaeth Sifil Wedi Dod i Ben	200	3.26%
Priod neu mewn Partneriaeth Sifil	2115	34.51%
Di-briod neu mewn Partneriaeth Sifil	1311	21.39%
Heb Ddatgan	2379	38.82%

Gweddw neu Bartner Sifil sy'n Fyw	96	1.57%
Mae'n well ganddynt beidio â dweud	28	0.46%
Cyfanswm	**6129**	**100.00**

Proffil gweithwyr yn ôl Rhyw

Rhyw	**2024**	
	Cyfanswm y gweithwyr	**% y gweithwyr**
Benyw	4630	75.54%
Gwryw	1499	24.46%
Heb ddatgan	0	0.00%
Cyfanswm	**6129**	**100.00%**

Proffil gweithwyr yn ôl Oedran

Ystod Oedran	**2024**	
	Cyfanswm y gweithwyr	**% y gweithwyr**
16 – 24	224	3.65%
25 – 34	1051	17.15%
35 – 44	1423	23.22%
45 – 49	766	12.50%
50 – 54	908	14.81%
55 – 59	877	14.31%
60 – 64	598	9.76%
65 – 69	215	3.51%
70 – 74	49	0.80%
75 oed a hŷn	18	0.29%
Cyfanswm	**6129**	**100.00%**

Atodiad 3 Proffil defnyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn ôl nodweddion gwarchodedig 2023/24.

Data a dynnwyd o'r casgliad data blynyddol 2023/24; yr holl unigolion 18 oed a hŷn y darparwyd cyngor a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn.

Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl rhyw ac oedran

Oedran	Benyw		Gwryw		Anneuaidd		Cyfanswm	
	Nifer	% Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion	Nifer	% Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion	Nifer	% Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion	Nifer	% Holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion
18-64	996	19.45%	767	14.98%	13	0.25%	1776	34.68%
65-74	367	7.17%	265	5.17%	0	0	632	12.34%
75-84	792	15.47%	510	9.96%	0	0	1302	25.42%
85+	871	17.01%	540	10.54%	0	0	1411	27.55%
Cyfanswm	**3026**	**59.09%**	**2082**	**40.66%**	**11**	**0.25%**	**5121**	**100%**

Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl cefndir ethnig

Cefndir ethnig	Nifer	%
Du a Chefndir Ethnig Lleiafrifol	39	0.76%
Gwyn Prydeinig	2544	49.68%
Heb ei gael	2538	49.56%
Cyfanswm	**5121**	**100%**

Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl iaith

Iaith	Nifer	% holl ddefnyddwyr y gwasanaeth i oedolion
Bengaleg	1	0.02%
Bwlgareg	1	0.02%
Saesneg	5093	99.45%
Almaeneg	1	0.02%
Hwngareg	1	0.02%
Eidaleg	1	0.02%
Lithwaneg	1	0.02%
Arall	2	0.04%
Pashto/Pakhto	1	0.02%
Pwyleg	5	0.10%
Portiwgaleg	1	0.02%
Rwmaneg	1	0.02%
Wcreineg	1	0.02%
Cymraeg	11	0.21%
Cyfanswm	**5121**	**100%**

Proffil defnyddwyr y Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion yn ôl crefydd

Crefydd	Nifer	%
Anffyddiwr	5	0.10
Bwdhaeth	1	0.02
Cristnogaeth	661	12.91
Tystion Jehofa	9	0.18
Islam	2	0.04
Dim Crefydd	110	2.15
Arall	51	1.00
Pagan/Urdd y Derwyddon	1	0.02
Anhysbys	4281	83.60
Cyfanswm	**5121**	**100.00**

Atodiad 4

Proffil disgyblion ysgol yn ôl nodwedd warchodedig

Proffil disgyblion ysgol yn ôl rhyw

Rhyw	Cynradd		Uwchradd	
	Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol	% yr holl ddisgyblion ysgol	Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol	% yr holl ddisgyblion ysgol
Gwryw	6983	50.80%	5126	50.28%
Benyw	6762	49.20%	5069	49.72%
Cyfanswm	**13745**	**100.00%**	**10195**	**100.00%**

Proffil disgyblion ysgol sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn ôl rhyw

Rhyw	Cynradd			Uwchradd		
	Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol	Nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim	% y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim	Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol	Nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim	% y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
Gwryw	6983	1228	50.56%	5126	891	51.89%
Benyw	6762	1201	49.44%	5069	826	48.11%
Cyfanswm	**13745**	**2429**	**100%**	**10195**	**1717**	**100%**

Proffil disgyblion ysgol yn ôl cefndir ethnig a'r rhai hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim

Cefndir ethnig	Cyfanswm yr holl ddisgyblion ysgol	% yr holl ddisgyblion ysgol	Nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim	% y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
Du a lleiafrif ethnig	1781	7.44%	154	3.71%
Gwyn Prydeinig	20741	86.24%	3757	90.62%
Arall	156	0.65%	7	0.17%
Anhysbys	1262	5.27%	228	5.50%
Cyfanswm	**23940**	**100%**	**4146**	**100%**